

Fforddadwyedd gwasanaethau cyfathrebu

Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol



Trosolwg

Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu fforddiadwy yn flaenoriaeth i Ofcom. Mae sefyllfa ariannol llawer o bobl wedi newid yn sylweddol eleni, gyda rhai yn wynebu heriau penodol. Ers dechrau pandemig y coronafeirws (Covid-19), mae Ofcom wedi casglu gwybodaeth newydd am fforddadwyedd gwasanaethau cyfathrebu. Mae hyn yn ychwanegol at ein gwaith monitro arferol ac mae'n cynnwys *Traciwr Fforddadwyedd Covid-19*¹ misol, a gwybodaeth a gesglir gan ddarparwyr cyfathrebiadau am ddyledion, datgysylltu a phrisiau.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau cychwynnol ar fforddadwyedd gwasanaethau cyfathrebu mawr.² Er mwyn adlewyrchu pa mor bwysig yw hi fod pobl yn gallu defnyddio'r rhyngwrwd, rydym yn rhoi sylw penodol i fforddadwyedd band eang sefydlog a gwasanaethau rhyngwrwd symudol. Mae ein dadansoddiad yn canolbwyntio ar y bobl hynny sydd fwyaf tebygol o fod yn agored i niwed yn ariannol ac sydd felly'n fwy tebygol o wynebu problemau o ran fforddadwyedd gwasanaethau.

Ein canfyddiadau

- Nid oedd y rhan fwyaf o gartrefi'r DU (81%) yn dweud bod problem o ran fforddadwyedd. Serch hynny, dywedodd bron i un o bob pump (19%) ar gyfartaledd fod o leiaf un broblem o ran fforddadwyedd gyda'u gwasanaethau cyfathrebu, sy'n cyfateb i tua 4.7 miliwn o aelwydydd, yn y mis diwethaf.³ Mae deg y cant o aelwydydd sydd â theledu drwy dalu wedi wynebu problem o ran fforddadwyedd, fel y mae 6% â band eang sefydlog a 5% â gwasanaeth rhyngwrwd symudol.
- Y broblem fwyaf cyffredin a adroddwyd gan ddefnyddwyr oedd yr angen i wneud newidiadau i becyn neu dariff er mwyn ei wneud yn fwy fforddiadwy. Digwyddodd hyn mewn 11% o'r holl aelwydydd. Problemau eraill, a allai fod yn fwy difrifol, oedd lleihau gwariant ar eitemau eraill fel bwyd a dillad (5%), canslo gwasanaeth (4%), colli taliad (2%) neu newid dull talu (2%).

¹ Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar oedolion dros 18 oed yn y DU sydd naill ai'n gwneud penderfyniadau am wasanaethau cyfathrebu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd yn eu haelwyd a/neu'r rhai sy'n defnyddio ffôn symudol yn bersonol. I gael rhagor o fanylion am gefndir a methodoleg yr ymchwil hwn, darllenwch yr Atodiad Technegol.

² Mae cwmpas yr adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i wasanaethau telegyfathrebu ac nid yw'n cynnwys gwasanaethau post.

³ Mae'r amcangyfrif hwn o'r boblogaeth yn defnyddio'r data misol diweddaraf (mis Hydref) ymysg holl aelwydydd y DU (17%) yn hytrach na'r gyfran gyfartalog ar draws yr holl donnau ymchwil (19%). +600,000 o aelwydydd yw cyfwng gwall yr amcangyfrif hwn o'r boblogaeth. Gweler troednodyn 39 am esboniad llawn a'r Atodiad Technegol

- Mae rhai grwpiau'n fwy tebygol o fod wedi wynebu problem o ran fforddadwyedd, gan gynnwys aelwydydd lle mae rhywun yn ddi-waith ar hyn o bryd ac yn chwilio am waith (38%), pobl ifanc 18-24 oed (29%), neu breswlydd sydd ag anhwylder sy'n effeithio neu'n cyfyngu arnynt (29%).
- Mae data gan ddarparwyr yn dangos bod cyfran y cwsmeriaid mewn ôl-ddyledion yn gymharol sefydlog rhwng mis Ionawr a mis Medi (2% ar gyfer sefydlog a 3% ar gyfer symudol). Roedd cyfran y cwsmeriaid mewn ôl-ddyledion ar gyfer dau daliad neu fwy wedi cynyddu dros hanner ar gyfer gwasanaethau sefydlog a gwasanaethau symudol yn y cyfnod hyd at fis Mehefin, ond gostyngodd wedi hynny.
- Roedd cyfran y cwsmeriaid a oedd wedi'u datgysylltu am beidio â thalu eu biliau wedi gostwng rhwng mis Mawrth a mis Mai (o fwy na thri chwarter i 0.02% o gwsmeriaid sefydlog ac o fwy na thraean i 0.14% o gwsmeriaid symudol). Wedyn cynyddodd y ffigur yn sylweddol rhwng mis Mehefin a mis Medi ar gyfer gwasanaethau sefydlog a gwasanaethau symudol (i tua 0.3% o gwsmeriaid ar gyfer pob un).
- Mae ystod eang o dariffau rhyngrwyd cymharol isel eu cost, gan gynnwys band eang cyflym iawn i gwsmeriaid sydd mewn contract am lai na £25 y mis a chontractau SIM yn unig symudol gyda lwfansau data wedi'u capio am lai na £10 y mis.
- Fodd bynnag, mae rhai cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol yn dal yn cael trafferth cadw gafael ar eu cysylltiad. Mae rhai darparwyr, fel BT, KCOM, Virgin Media a Voxi yn cynnig tariffau rhatach i gwsmeriaid ar sail meini prawf cymhwysedd, ond mae'r nifer sy'n eu defnyddio yn isel ar hyn o bryd. Felly, rydym yn annog darparwyr i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo tariffau perthnasol i gwsmeriaid a allai fod yn gymwys. Os nad yw darparwyr eisoes yn cynnig cynnyrch o'r fath, rydym yn eu hannog yn gryf i ystyried eu cyflwyno.


Ein camau nesaf

- Byddwn yn parhau i gynnal ymchwil yn 2021 ac yn monitro dangosyddion dyledion a fforddadwyedd eraill. Yn hanner cyntaf 2021 byddwn yn cyhoeddi rhagor o dystiolaeth ac yn nodi ein hasesiad o fforddadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, ochr yn ochr ag unrhyw gamau pellach rydym yn credu eu bod yn angenrheidiol.

Mae gwasanaethau rhyngrwyd wedi bod yn arbennig o bwysig eleni

Mae ein hymchwil misol yn dangos mai band eang sefydlog yw'r gwasanaeth cyfathrebu pwysicaf i ddefnyddwyr. Dywedodd 94% o aelwydydd â band eang sefydlog ei fod yn bwysig, gan gynnwys pedwar o bob pump (79%) a ddywedodd ei fod yn bwysig iawn i'w haelwyd ar hyn o bryd.

Ffigur 1: Cyfran y cartrefi sy'n dweud bod eu gwasanaethau cyfathrebu yn 'bwysig iawn'



Ffynhonnell: Traciwr Fforddadwyedd Covid-19 Ofcom.

Sylfaen: Unigolion dros 18 oed sy'n gwneud penderfyniadau yn y DU. Data treigl Mehefin-Medi. Band eang sefydlog (3,811), Ffôn symudol (4,271), Teledu drwy Dalu (2,750), Llinell Dir (3,483), Gwasanaethau ffrydio ar-alw (2,938).

Mae bron i un o bob pum aelwyd wedi cael o leiaf un broblem o ran fforddadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, ac mae hyn ar ei uchaf ymysg y rhai sy'n ddi-waith neu'n iau (18-24 oed)

Ar gyfartaledd, nid yw'r rhan fwyaf (81%) o gartrefi wedi cael problem o ran fforddadwyedd gyda gwasanaethau cyfathrebu. Rheswm posibl am hyn yw'r gostyngiad mewn termau real yng ngwariant aelwydydd ar wasanaethau symudol a gwasanaethau band eang sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn y defnydd o ddata. O ran band eang sefydlog, er enghraifft, bu gostyngiad o 3% mewn termau real yn y gwariant cyfartalog ar gynnyrch llais a data sefydlog rhwng 2014 a 2019,⁴ ond bu cynnydd o 443% yn y defnydd o ddata ar gyfartaledd. O ran gwasanaethau symudol, rydym wedi gweld prisiau tariffau sy'n cynnwys llawer iawn o ddata cynhwysol yn gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.⁵

Fodd bynnag, dywedodd bron i un o bob pump (19%) o aelwydydd fod ganddynt o leiaf un broblem o ran fforddadwyedd.⁶ Roedd rhai aelwydydd sy'n ymddangos yn fwy tebygol o fod wedi cael


⁴ Ofcom, Medi 2020. *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau*, Trosolwg o Delegyfathrebiadau, Refeniw.

⁵ Ofcom, Ionawr 2020. *Tueddiadau o ran prisiau gwasanaethau cyfathrebu yn y DU*, adran 4.

⁶ Gofynnwyd i ddefnyddwyr a oeddent wedi cael unrhyw broblemau o ran fforddiadwyedd, ar gyfer unrhyw wasanaethau cyfathrebu a oedd ganddynt, yn ystod y mis cyn y cyfweiliad. Mae absenoldeb data tebyg cyn mis Mawrth 2020 yn golygu nad yw'n bosibl dod i gasgliadau ynghylch i ba raddau y mae amgylchiadau economaidd presennol y DU wedi effeithio ar lefelau'r problemau o ran fforddiadwyedd a adroddwyd.

problem o ran fforddadwyedd yn cynnwys y rhai gyda phobl sy'n ddi-waith ar hyn o bryd ac yn chwilio am waith, cwsmeriaid iau (18-24 oed), a'r rhai sydd â chyflwr sy'n effeithio neu'n cyfyngu arnynt.⁷

Ffigur 2: Unrhyw broblem o ran fforddadwyedd sy'n gysylltiedig ag unrhyw wasanaeth cyfathrebu, yn ôl grŵp



Ffynhonnell: Traciwr Fforddadwyedd Covid-19 Ofcom.

Sail: Unigolion dros 18 oed sy'n gwneud penderfyniadau yn y DU. Data treigl Mehefin-Hydrref ([5,567]).


Rhoi'r gorau i wasanaeth yw'r broblem fwyaf cyffredin o ran fforddadwyedd, wedi'i dilyn gan broblemau eraill a allai fod yn fwy difrifol

Pan fyddant yn cael trafferth talu am wasanaeth cyfathrebu, y cam mwyaf cyffredin mae cwsmeriaid yn ei gymryd yw rhoi'r gorau i wasanaeth, fel y dangosir yn Ffigur 3. Ar gyfartaledd, roedd tua un o bob deg aelwyd wedi gwneud newidiadau i wasanaeth cyfathrebu, fel y pecyn neu'r tariff, er mwyn ei wneud yn fwy fforddiadwy.

Mae cwsmeriaid wedi cymryd camau eraill a allai awgrymu pryderon difrifol iawn o ran fforddadwyedd, fel canslo gwasanaeth oherwydd nad oeddent yn gallu ei fforddio mwyach, colli taliad, neu newid dulliau talu i'w helpu i barhau i dalu. Yn yr un modd, mae rhai aelwydydd wedi lleihau faint maen nhw'n ei wario ar eitemau eraill er mwyn cadw gafael ar eu gwasanaethau cyfathrebu, sy'n dangos y gallai rhai fod yn gwneud dewisiadau anodd wrth ystyried cyfathrebiadau ochr yn ochr â meysydd eraill o wariant yr aelwyd.

⁷ Diffiniwyd hyn fel unrhyw gyflwr sy'n effeithio neu'n cyfyngu ar y defnydd o wasanaethau cyfathrebu. Gall y rhain gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i, broblemau gyda'r clyw, golwg, symudedd, galluoedd meddyliol neu iechyd meddwl.

Ffigur 3: Y math o broblemau o ran fforddadwyedd a gafwyd yn ystod y mis diwethaf



Ffynhonnell: Traciwr Fforddadwyedd Covid-19 Ofcom.

Sail: Unigolion dros 18 oed sy'n gwneud penderfyniadau yn y DU. Data treigl Mehefin-Hydref ([5,567]).

Mae gwasanaethau rhyngrwyd yn hanfodol i lawer o bobl gadw mewn cysylltiad â chymdeithas, ond mae gan rai aelwydydd sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn broblemau o ran fforddadwyedd

Ar gyfartaledd, roedd 6% o aelwydydd â band eang sefydlog yn wynebu problem o ran fforddadwyedd gyda'u gwasanaeth yn ystod y mis diwethaf⁸, ac rydym yn amcangyfrif bod hynny'n cyfateb i tua **miliwn o aelwydydd**. Mae hyn yn fwy cyffredin ymysg y rhai sy'n ddi-waith ar hyn o bryd ac yn chwilio am waith, yn y categori incwm aelwyd isaf, yn y grŵp economaidd-gymdeithasol DE, neu sy'n cael o leiaf un budd-dal gan y llywodraeth.

Yn debyg, ar gyfartaledd roedd 8% o aelwydydd rhyngrwyd symudol yn unig⁹ – yr ydym yn eu diffinio fel dim ond cael mynediad i'r rhyngrwyd drwy ffôn symudol neu ddyfais band eang symudol arall, fel dongl – wedi cael problem o ran fforddadwyedd gyda'u gwasanaeth symudol. Roedd grwpiau oedran iau a'r rhai sy'n cael o leiaf un math o fudd-dal mewn aelwydydd rhyngwyd symudol yn unig yn fwy tebygol o fod wedi cael problem o ran fforddadwyedd gyda'u gwasanaeth symudol.

Rydym yn disgwyl y bydd y ddibyniaeth ar fynediad i'r rhyngrwyd yn parhau i gynyddu, felly mae fforddadwyedd y gwasanaethau hyn i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol yn arbennig o bwysig.

⁸ Mae'r amcangyfrif hwn o'r boblogaeth yn defnyddio'r data misol diweddaraf (mis Hydref) ymysg holl aelwydydd y DU (3.5%), yn hytrach na'r gyfran gyfartalog ar draws yr holl donnau ymchwil ymysg aelwydydd â band eang sefydlog (6%). +300,000 o aelwydydd yw cyfwng gwall yr amcangyfrif hwn o'r boblogaeth. Gweler troednodyn 50 a'r Atodiad Technegol am ragor o fanylion.

⁹ Oherwydd maint bach y grŵp hwn, nid ydym yn gallu bwrw amcan dibynadwy o faint y boblogaeth.

Mae cwsmeriaid wedi parhau i dalu eu biliau telegyfathrebiadau yn ystod y pandemig, ond mae cyfran y cwsmeriaid sy'n cael eu datgysylltu am beidio â thalu wedi cynyddu

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gymryd mesurau ychwanegol i sichrau bod cwsmeriaid sydd mewn dyled yn cael eu trin yn deg. Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant i ddarparu cymorth i gwsmeriaid a allai fod yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Mae ein canllaw [*Trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg*](#) yn nodi'r mesurau y gall darparwyr eu mabwysiadu i sichrau bod cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol yn cael y cymorth, y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Nid oedd cynnydd sylweddol yn nifer y cwsmeriaid a oedd wedi mynd i ddyled rhwng mis Ionawr a mis Medi 2020. Gallai'r rhesymau dros hyn gynnwys cymorth gan gynllun ffyrlo'r Llywodraeth a chwsmeriaid yn cael gwahanol fathau o gymorth talu gan eu darparwyr.

Roedd rhai darparwyr wedi rhoi'r gorau i ddatgysylltu am y tro yn ystod camau cynnar y pandemig ac roedd cyfran y cwsmeriaid a oedd wedi'u datgysylltu am beidio â thalu ar ei isaf yn ystod camau cychwynnol y cyfyngiadau symud, sef 0.02% ar gyfer sefydlog a 0.14% ar gyfer symudol ym mis Mai. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi aildechrau ers hynny, gyda nifer y cwsmeriaid sefydlog a gafodd eu datgysylltu wedi cynyddu o 0.02% i 0.30% rhwng mis Mehefin a mis Medi, a'r cwsmeriaid symudol a gafodd eu datgysylltu wedi cynyddu o 0.14% i 0.30% yn ystod y cyfnod hwn.

Gwelsom hefyd y gall yr arferion sy'n gysylltiedig â dyled a datgysylltu amrywio yn ôl darparwr. Er ein bod yn croesawu'r camau cyflym a gymerwyd gan ddarparwyr mewn ymateb i'r pandemig, mae rhai meysydd lle credwn y gall darparwyr wneud mwy i gefnogi eu cwsmeriaid yn well.

Gall tariffau fforddiadwy helpu cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol i gadw gafael ar eu cysylltiad. Mae rhai darparwyr wedi rhoi'r rhain ar waith ar gyfer pobl ar incwm isel, ond mae'r nifer sy'n manteisio arnynt yn isel

Gall cwsmeriaid yn y farchnad band eang sefydlog gael gafael ar wasanaethau safonol a chyflym iawn am tua £17-£25 y mis, ac mae cynnyrch SIM yn unig symudol gyda lwfansau data cyfyngedig ar gael am £5-£10 y mis. Mae ein hymchwil yn awgrymu, hyd yn oed gyda'r prisiau hyn ar gael, bod rhai pobl yn dal i gael trafferth fforddio mynediad i'r rhyngwrwyd.

Mae'n bosibl y bydd cwsmeriaid sy'n bodloni rhai meini prawf cymhwysedd penodol, sy'n aml yn gysylltiedig â budd-daliadau'r Llywodraeth, yn gymwys i gael cynnyrch wedi'i dargedu fel y rhai sydd wedi'u nodi yn Ffigur 4.¹⁰ O ystyried y pwysigrwydd y mae pobl yn ei roi ar fynediad i'r rhyngwrwyd a'r ffaith fod rhai grwpiau'n fwy tebygol o gael problem o ran fforddiadwyedd, mae argaeledd tariffau

¹⁰ Yn ogystal â'r tariffau yn y tabl, mae rhai cynhyrchion eraill ar gael i gefnogi cwsmeriaid a allai fod yn cael trafferth cael mynediad i'r rhyngwrwyd oherwydd problemau o ran fforddiadwyedd.

fforddiadwy wedi'u targedu yn bwysig iawn. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynhyrchion hyn yn isel ar hyn o bryd, yn rhannol oherwydd nad yw darparwyr yn hyrwyddo tariffau o'r fath rhyw lawer.

Rydym yn annog darparwyr nad ydynt eisoes yn cynnig cynhyrchion o'r fath i ystyried cyflwyno tariffau wedi'u targedu sydd wedi'u dylunio i wneud yn siŵr bod cwsmeriaid ar incwm isel, neu sy'n agored i niwed yn ariannol fel arall, yn gallu cael gafael ar wasanaethau symudol neu fand eang fforddiadwy. Pan fydd darparwyr yn cynnig tariffau o'r fath, mae'n bwysig eu bod yn gallu dangos eu bod yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r cynhyrchion hyn i gwsmeriaid a allai fod yn gymwys, a sichrau eu bod ar gael i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol, a allai gynnwys pobl sydd mewn dyled.

Figur 4: Cynhyrchion rhyngwyd â gofynion cymhwysedd sy'n gysylltiedig â sefyllfa ariannol fregus

Cynnyrch darparwr	Pris	Cyflymder	Grŵp targed	Lwfans galwadau llinell dir
BT Basic + Broadband	£10.07 y mis	10 Mdid yr eiliad	Budd-daliadau ar sail prawf modd (dim enillion)*	Hyd at 60 munud am ddim, a lwfans galwadau o £1.50. Galwadau dilynol wedi'u capio ar £10.
Virgin Media Essential Broadband	£15 y mis	15 Mdid yr eiliad	Credyd Cynhwysol	Amh – band eang yn unig.
KCOM Lightstream Flex	£20 y mis	30 Mdid yr eiliad	Budd-daliadau ar sail prawf modd (dim enillion)	Hyd at 60 munud am ddim, ac 20 o alwadau lleol. Galwadau dilynol wedi'u capio ar £10.
Voxi For Now [†]	£10 y mis	5G (lle bo hynny ar gael)	Budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth	Galwadau a negeseuon testun diderfyn

*Mae BT yn bwriadu gwella'r cynnyrch hwn yn 2021, gan gynnwys ehangu ei gymhwysedd i bobl sydd ar Gredyd Cynhwysol.

[†] Mae ceisiadau ar gyfer y cynnyrch hwn yn agored tan 31 Ionawr 2021, a gall cwsmeriaid cymwys ei ddefnyddio am 6 mis.

Byddwn yn parhau i fonitro fforddadwyedd a dyled, ac yn asesu a fydd angen cymryd camau pellach yn ystod hanner cyntaf 2021

Fel y nodir yn ein [cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2021/22](#), rydym yn bwriadu parhau i fonitro lle mae aelwydydd yn cael traferth talu am wasanaethau cyfathrebu. Yn hanner cyntaf 2021, byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hymchwil pellach a dadansoddiad pellach o ddyled cwsmeriaid.

Mae ein cynllun gwaith arfaethedig hefyd yn cadarnhau ein hamcan strategol ehangach i sichrau bod buddsoddiad yn parhau mewn rhwydweithiau symudol 5G a band eang gigadid ("GB"), er mwyn

sicrhau bod rhagor o bobl yn gallu cael mynediad i rwydweithiau diogel o ansawdd uchel. Mae gallu mynd ar-lein gartref ac ar grwydr yn hanfodol i bobl ym mhob rhan o'r DU felly mae buddsoddi yn y technolegau diweddaraf, gan gynnwys ffeibr llawn a 5G, yn dod yn fwyfwy pwysig i ddiwallu eu hanghenion. Wrth i fuddsoddiadau gael eu gwneud, rydym yn ymwybodol y gallai prisiau rhai gwasanaethau godi. Felly, mae'n arbennig o bwysig, ochr yn ochr ag argaeledd technolegau mwy newydd, bod gwasanaethau symudol a band eang fforddiadwy boddhaol yn dal ar gael i'r rhai sydd dan yr anfantais ariannol fwyaf.

Felly, byddwn yn asesu'r ddarpariaeth o dariffau fforddiadwy sydd ar gael i grwpiau o gwsmeriaid wedi'u targedu. Os byddwn yn sefydlu unrhyw bryderon ynghylch fforddadwyedd na fyddai'r tariffau presennol a chymorth gan ddarparwyr yn rhoi sylw iddynt, byddwn yn nodi cynigion ar gyfer unrhyw fesurau pellach. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda'r Llywodraeth i benderfynu a fyddai tariff cymdeithasol ffurfiol sy'n seiliedig ar reoliadau, neu fesurau cymorth uniongyrchol eraill, yn briodol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch fforddadwyedd.

Byddwn yn cyflwyno asesiad manylach o lefelau dyled a datgysylltu yn y sector, ochr yn ochr ag arferion darparwyr cysylltiedig. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i'n dull o fonitro yn y tymor hwy ac yn nodi unrhyw feysydd lle mae angen mesurau pellach i gefnogi cwsmeriaid. I gloi, byddwn yn ystyried a yw'r rhwymedigaethau ar ddarparwyr yn y maes hwn yn dal yn briodol.